OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 934 (Cy.96)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2010

Gwnaed - - - -	*12 Mawrth 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, dyddiedig Gorffennaf 2009, ar adolygiad y Comisiwn o'r cymunedau mewn rhan o Fwrdeistref Sirol Caerffili, a'i argymhellion ar gyfer y cymunedau hynny.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru roi effaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

Aeth mwy na chwe wythnos heibio er pan gyflwynwyd y cynigion hynny i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2010.

(2) At unrhyw ddiben a bennir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir y Gorchymyn.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2010, a'r diwrnod hwnnw yw'r diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyron "Map A" ("*Map A*"), "Map B" ("*Map B*"),"Map C" ("*Map C*"), "Map D" ("*Map D*"), "Map E" ("*Map E*"), "Map F" ("*Map F*"), "Map G" ("*Map G*"), "Map H" ("*Map H*"), "Map I" ("*Map I*"), "Map J" ("*Map J*"), "Map K" ("*Map K*"), "Map L" ("*Map L*"), "Map M" ("*Map M*") a "Map N" ("*Map N*") yw'r mapiau a farciwyd, yn eu trefn, fel mapiau A, B, C, D, E,

(**1**) 1972 p. 70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

F, G, H, I, J, K, L, M ac N o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2010, ac a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**); ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, rhaid ei thrin fel pe bai'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

3. Gwneir newidiadau yn ardal llywodraeth leol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

Caerffili a Phenyrheol Trecenydd ac Energlyn – newid yn yr ardaloedd cymunedol a ffiniau wardiau a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

4. Mae'r rhan o gymuned Caerffili a ddangosir â llinellau ar Fap A—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Penyrheol Trecenydd ac Energlyn;

(b) yn ffurfio rhan o ward Trecenydd o gymuned Penyrheol Trecenydd ac Energlyn; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Penyrheol.

5. Mae'r rhan o gymuned Penyrheol Trecenydd ac Energlyn a ddangosir â llinellau ar Fap B—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Caerffili;

(b) yn ffurfio rhan o ward Cwrt Rawlins o gymuned Caerffili; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol St. Martins.

6. Mae'r rhan o gymuned Caerffili a ddangosir â llinellau ar Fap C bellach yn ffurfio ward Cwrt Rawlins, a newidir ward Watford yn gyflin â ffin newydd y ward cymunedol.

7. Yng nghymuned Caerffili, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward y Castell yw 2, dros ward Cwrt Rawlins yw 2, a thros ward Watford yw 1.

8. Yng nghymuned Penyrheol Trecenydd ac Energlyn nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward Penyrheol yw 4.

Caerffili a'r Fan – newid yn yr ardaloedd cymunedol a ffiniau wardiau a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

9. Mae'r rhan o gymuned y Fan a ddangosir â llinellau ar Fap D—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Caerffili;

(b) yn ffurfio rhan o ward Tonyfelin; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Morgan Jones.

10. Mae'r rhan o gymuned Caerffili a ddangosir â chroeslinellau ar Fap D—

(a) yn cael ei throsglwyddo o ward Twyn; a

(b) yn ffurfio rhan o ward Tonyfelin.

Penyrheol Trecenydd ac Energlyn a Llanbradach a Phwll-y-Pant – newid yn yr ardaloedd cymunedol a ffiniau wardiau a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

11. Mae'r rhan o gymuned Llanbradach a Phwll-y-Pant a ddangosir â llinellau ar Fap E—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Penyrheol Trecenydd ac Energlyn;

(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

(b) yn ffurfio rhan o ward Energlyn; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Penyrheol.

12. Mae'r rhan o gymuned Penyrheol Trecenydd ac Energlyn a ddangosir â llinellau ar Fap F—

(a) yn cael ei throsglwyddo o ward Trecenydd; a

(b) yn ffurfio rhan o ward Energlyn.

Llanbradach a Phwll-y-Pant a Chaerffili – newid yn yr ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

13. Mae'r rhan o gymuned Caerffili a ddangosir â llinellau ar Fap G—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llanbradach a Phwll-y-Pant;

(b) yn ffurfio rhan o ward Pwll-y-Pant; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Llanbradach.

Maesycwmer a Phengam – newid yn yr ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

14. Mae'r rhan o gymuned Maesycwmer a ddangosir â llinellau ar Fap H—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pengam;

(b) yn ffurfio rhan o ward Pengam; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pengam.

15. Mae'r rhan o gymuned Pengam a ddangosir â chroeslinellau ar Fap H—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Maesycwmer;

(b) yn ffurfio rhan o ward Maesycwmer; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Maesycwmer.

Maesycwmer a Pontllanfraith – newid yn yr ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

16. Mae'r rhan o gymuned Maesycwmer a ddangosir â llinellau ar Fap I—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pontllanfraith;

(b) yn ffurfio rhan o ward Pontllanfraith; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pontllanfraith.

17. Mae'r rhan o gymuned Pontllanfraith a ddangosir â chroeslinellau ar Fap I—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Maesycwmer;

(b) yn ffurfio rhan o ward Maesycwmer; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Maesycwmer.

Pengam a Chefn Fforest – newid yn yr ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

18. Mae'r rhannau o gymuned Pengam a ddangosir â llinellau ar Fap J a Map K—

(a) yn cael eu trosglwyddo i gymuned Cefn Fforest;

(b) yn ffurfio rhan o ward Cefn Fforest; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Cefn Fforest.

Rhisga – diddymu ardal gymunedol bresennol er mwyn creu dwy ardal gymunedol newydd

19.—(1) Diddymir y gymuned bresennol Rhisga, a rhennir yr ardal er mwyn ffurfio dwy gymuned newydd, sef Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga, fel y'u dangosir ar Fap L a Map M.

(2) Mae'r gymuned newydd Dwyrain Rhisga yn ffurfio rhan o adran etholiadol Dwyrain Rhisga.

(3) Mae'r gymuned newydd Gorllewin Rhisga yn ffurfio rhan o adran etholiadol Gorllewin Rhisga.

Pen-maen a Chrymlyn – newid yn yr ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

20. Mae'r rhan o gymuned Crymlyn a ddangosir â llinellau ar Fap N—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pen-maen;

(b) yn ffurfio rhan o ward Pen-maen; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pen-maen.

Carl Sargeant
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2010

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi effaith i gynigion gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn"), a gyflwynodd ei adroddiad yng Ngorffennaf 2009 ar ei adolygiad o'r ffiniau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Yr oedd adroddiad y Comisiwn yn argymell newid ffiniau cymunedau Bedwas, Tretomas a Machen, Y Coed Duon, Tref Caerffili, Cefn Fforest, Llanbradach a Phwll-y-Pant, Maesycwmer, Pengam, Penmaen, Penyrheol Trecenydd ac Energlyn, Pontllanfraith, Rhisga a'r Fan. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiad.

Mae printiau o fapiau sy'n dangos y ffiniau diwygiedig wedi eu hadneuo yn y mannau canlynol, a gellir eu harchwilio yno yn ystod yr oriau swyddfa arferol: swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Canolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen, Parc Busnes Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7FN; a swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, yn yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol.

Map A o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2010.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

229.09-10 Cynhyrchwyd gan Cartograffeg,
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru